Sylwadau Cynghorydd Peter Thomas ar adroddiad a fydd yn cael ei chyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd ar 15 Medi er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniad y cyfnod gwrthwynebu statudol a gynhaliwyd ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027.

Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb ddaru arwyddo y deiseb a chyflwynwyd gan y corff llywodraethwyr i wrthwynebu cynnig y Cyngor i gau Ysgol Baladeulyn.
Y ffaith bod 500 cant wedi ei arwyddo yn dangos y cefnogaeth cryf sydd i gadw yr adnodd yma yn agored yn Nantlle. Hefyd diolch i bawb ddaru ddangos ei gwrthwynebiad drwy anfon negeseuon i'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn.

Nid rwyf wedi newid fy marn y bydd cau yr ysgol yn ergyd drom i'r pentref ac hefyd bydd yn cael effaith andwyol i ddefnydd y iaith Gymraeg ac hefyd fydd y pentref yn colli cyfleusterau yn yr ysgol a defnyddir gan y gymuned.

Mae y cabinet yn ymwybodol rwyf wedi ffafrio drwy y broses yma bod Ysgol Baladeulyn yn ffederaleiddio gyda Ysgol Talysarn(ady) ac yn rhannu adnoddau. Hefyd rwyf yn pryderu os ydi holl disgyblion Ysgol Baladeulyn yn symud i Ysgol Talysarn yna fydd yr ysgol dros ei capasiti ac fydd hyn yn newid mawr i'r plant sydd wedi arfer gyda ysgol ffigyrau disgyblion isel.

Gobeithio bydd y Cabinet yn ystyried y gwrthwynebiadau a'r ddeiseb gyda 500 o lofnodion yn ogystal yr effaith all cau Ysgol Baladeulyn ei gael ar y plant, rhieni, y gymuned a'r iaith Gymraeg.